Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Treferthyr

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Treferthyr yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi, parch a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir a doeth ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb wrth gyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae staff yn modelu iaith yn fwriadus a brwdfrydig sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i gynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol i'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion yn y dosbarthiadau uwch ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio â'i gilydd i ddatrys heriau a chwblhau prosiectau. Er hyn, wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, prin yw'r cyfleoedd iddynt wneud dewisiadau am sut i gyflwyno'u gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn bwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

**A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut i gyflwyno’u gwaith**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**



Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.